Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 30.11.2020

## Cyhoeddi cyfyngiadau newydd wedi'u targedu yn y sectorau lletygarwch a hamdden

Mae'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, wedi cyhoeddi cyfres o gyfyngiadau newydd wedi'u targedu yn y sectorau lletygarwch a hamdden. O ddydd Gwener 4 Rhagfyr 2020, bydd yn rhaid i dafarndai, bariau, bwytai a chaffis gau erbyn 6:00pm ac ni fyddant yn cael gweini alcohol. Ar ôl 6:00pm, dim ond gwasanaethau tecawê y byddant yn gallu eu darparu. Bydd yn ofynnol i atyniadau adloniant ac ymwelwyr dan do gau o dan y cyfyngiadau newydd. I gael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad, ewch i:

https://llyw.cymru/cymorth-340m-ar-gyfer-busnesau-cymru-wrth-ir-rheolau-coronafeirws-newydd-gael-eu-cyhoeddi

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru hefyd y bydd cymorth ariannol ychwanegol yn cael ei ddarparu i fusnesau y mae'r cyfyngiadau newydd yn effeithio arnynt. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan ddaw mwy o fanylion am y cymorth, a sut i gael gafael arno, i law.

## Annog siopa'n lleol yng Ngwynedd y Nadolig hwn

Mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau datganiad yn annog pobl y sir i gefnogi ein siopau stryd fawr a busnesau lleol y Nadolig hwn. I gefnogi'r ymgyrch siopa Nadolig lleol, mae'r Cyngor yn darparu parcio am ddim ym meysydd parcio'r Cyngor o 12 tan 27 Rhagfyr 2020. Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cynnal ymgyrch ar y gwefannau cymdeithasol yn annog pobl i gefnogi siopau lleol y Nadolig hwn. Fel rhan o'r ymgyrch, bydd gwybodaeth am lu o fusnesau lleol i'w gweld ar y wefan isod:

https://bit.ly/prynulleol2020

Petai busnes am gael ei ychwanegu i'r rhestr ar y wefan yma, gellir cysylltu â:

twristiaeth@gwynedd.llyw.cymru

I weld y datganiad yn llawn, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd27Tach2020

## Newyddion Busnes Cymru 30 Tachwedd 2020

Mae gwybodaeth am gyhoeddiad heddiw, a mwy, ym mwletin diweddaraf Busnes Cymru, ewch i:

https://bit.ly/NewBusCymru30Tach2020

## Estyniad i Grant y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth – SEISS

Mae'r grant yn cael ei estyn o 1 Tachwedd 2020 ymlaen ac ar gael mewn ffurf dau grant, bob un ar gael am gyfnod o dri mis, yr un yn cwmpasu Tachwedd 2020 hyd at Ionawr 2021, ac o Chwefror 2021 hyd at Ebrill 2021. Bydd y gwasanaeth ar-lein ar gyfer y grant nesaf ar gael o heddiw, 30 Tachwedd 2020 ymlaen. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/claim-a-grant-through-the-coronavirus-covid-19-self-employment-income-support-scheme.cy

## Dydd Sadwrn y Busnesau Bach DU (Small Business Saturday UK) 5 Rhagfyr 2020

Erbyn hyn, yn ei wythfed flwyddyn, mae ymgyrch busnesau bach mwyaf llwyddiannus y DU, Dydd Sadwrn y Busnesau Bach DU (Small Business Saturday UK), yn ôl unwaith eto. Bydd yr ymgyrch, sy'n dathlu llwyddiant busnesau bach, yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn 5 Rhagfyr eleni ac anogir defnyddwyr hefyd i barhau i gefnogi busnesau bach dros yr hyn a fydd yn aeaf anodd i lawer. I gael gwybodaeth am sut i gymryd rhan ac i lawrlwytho logos yn y Gymraeg a Saesneg, i'w defnyddio ar eich gwefan neu gyfryngau cymdeithasol, ewch i:

https://smallbusinesssaturdayuk.com/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru